YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. RHAGFYR, 1951 RHIF 12.

Nodiadau'r Golygydd.

RHAID ACHUB "YR YMOFYNNYDD".

Y MAE'N hwyr nos Sul a minnau wedi blino, ond ni fedraf orffwys cyn gorffen y nodiadau yma. Yn ôl yr hanes, y mae llawer Golygydd arall wedi pendronni yn yr un modd. Nid tasg fechan yw llywio'r hen gwch pan fo'r stormydd yn codi'n uchel a rhwyf ar ôl rhwyf yn mynd ar goll. Soniaf am hyn yn unig er dangos fod gennym fel golygyddion, hawl foesol i ofyn am beth aberth ar ran ein cyd-Undodiaid a'n darllenwyr. Pe gallwn ymddiried ar ddeg o ddynion i fynd ati yn ein eglwysi i ddeffro'r rhai a gysgodd yn y cwch, byddai'r stori'n bur wahanol. Pa le mae y deg? A sefwch chwi gen i yn yr adwy?

Ni wn a ydym yn sylweddoli mai'r YMOFYNNYDD yw ein achos cryfaf yng Nghymru. Yr ydym yn gyfarwydd â chyfrannu at ein eglwysi, ond am ryw reswm tybir y dylai'r YMOFYNNYDD dalu amdano'i hun. Petai'n bapur mawr a'i gylchrediad yn ddigon eang i ofyn pris da am hysbysebu ynddo, diau y byddai hynny yn bosibl—ond nid felly y mae. Ychwanegwyd dros drigain a deg at ei gylchrediad yn ystod y dair blynedd ddiwethaf ond cododd prisiau papur ac argraffu yn aruthrol yn y cyfnod hwnnw. Tua £10/12/6 y rhifyn a gostiau dair blynedd yn ôl, heddiw fe gyst £14/15/0 y rhifyn. Golyga hyn gost ychwanegol o £49/10/0 y flwyddyn.

Pe cawn ddeg o ddynion i fynd o gwmpas y rhai difater yn ystod Rhagfyr gellid ychwanegu cant o ddarllenwyr newydd yn gwbl ddidrafferth. Y chwi a ŵyr pwy sy'n ddifater, ac arnoch chwi y gorffwys y gwaith o egluro'r sefyllfa i'r bobl hynny. A gwn na wrthodai neb a gâr ryddid barn, pe sylweddolai ddifrifoldeb y sefyllfa. Dyma *unig* bapur *Crefydd Rydd* yng Nghymru, ac os collir ef ni wêl atgyfodiad mwy.

Y mae un capel yn trefnu darlith i gefnogi'r achos eisoes, a gobeithiaf y bydd eraill yn dilyn ei siampl dda. Gwn hefyd y bydd unigolion yn ymateb ac yn bwrw'u cyfran i'r drysorfa. A chwi sydd eisoes yn dderbynwyr, cofiwch dalu'r dosbarthwr cyn diwedd y flwyddyn er esmwythau peth o'r baich sy'n disgyn ar ei ysgwydd ef. Y mae'n ganol nos erbyn hyn—ysgwn i a welir gwawr ?

Y Creisis a'r Sham.

Yr wyf yn defnyddio'r gair *creisis* am fod gennym gystal hawl arno â'r Sais ac am ei bod yn bosibl i rai beidio a deall y brawd Cymraeg *cyfyng-gyngor*. Y mae rheswm arall hefyd, ond fe adawn hwnnw hyd at y diwedd.

Y mae'r llywodraeth yn dweud wrthym ein bod yn wynebu creisis mawr ac ni flina'r arweinwyr ar ddefnyddio'r gair. Yn gyffredin fe ddeellir wrth y gair fod rhyw dro er gwaeth yng nghyflwr pethau wedi digwydd neu ar ddigwydd. Ond carwn eich cysuro drwy ddweud mai anwiredd yw hyn oll.

Ychydig flynyddoedd yn ôl arferai'r rhan fwyaf ohonom wisgo darn o liain pwrpasol o dan ein coler a thei er mwyn cuddio'r crys gwlanen garw oddi tano. Edrychai'n hollol fel crys lliain o'r crandiaf hyd oni ddiosgech eich cot. Galwem y teclyn yma yn *ffrynt* mewn rhai ardaloedd, ond yr enw gorau o lawer oedd *sham*. A dyna, i'm tyb i, beth a welwn yn ein gwlad a'n byd heddiw, ond fod y broses o chwith. Dangosir i ni ffrynt arw a chwrs ac fe'i gelwir yn *greisis* ond o dan y cwbl y mae'r lliain harddaf a luniwyd erioed. Y mae galw heddiw am i ddynion ddiosg eu cotiau a diarddel y *sham*.

Nid oes greisis yng nghreadigaeth Duw ; nid oes un newid sylfaenol wedi digwydd nac ar ddigwydd yn ein byd. Y mae'r byd heddiw yn union fel yr oedd, yn ardd ffrwythlon lle gallai'r holl ddynoliaeth gael digon o waith, heddwch a hapusrwydd. Y peth sy'n ein blino heddiw yw'r sefyllfa ffug a osodwyd ar wyneb y byd gan wleidyddwyr ac eraill. Y *sham*.

Clywsom yn ystod yr wythnos bod prinder glo. Yn ystod y gaeaf fe fydd hen bobl sy'n treulio'u gaeaf olaf wrth dân eu cartref, efallai, heb ddigon o lô i gynhesu'r aelodau crin. "Ond ni allwn mo'r help," meddai'r gwŷr doeth, "mae prinder glo." Peidied neb a dweud hyn wrth wŷr cymoedd y De ; yr ydym yn cerdded ar filiynau o dunelli o lo bob dydd. Y mae seiliau fy nhŷ yn eistedd ar wythïen o'r glo gorau ac ochrau seler tŷ cyfagos yn lo gloyw i gyd. Nid oes brinder glo—*sham* yw'r cyfan. Y mae'r llywodraethau yn barod i dalu mil yr wythnos i'r gwŷr sy'n dyfeisio bomiau atomig ac i sbïwyr, ond nid oes ganddi gyflog deilwng i'r gŵr sy'n twrio ym mherfedd y ddaear. Gwariant filiynau ar nwyon gwen-

wynig, ond ceiniogau prin sydd ar gyfer ymladd pla llwch y garreg—y pla sy'n caledu ysgyfaint y glowr a chadw cynifer o'm cydnabod ifanc a hen mewn cyflwr mor ddrwg fel na fuont yn cysgu mewn gwely ers blynyddoedd. Dyna'r *sham.*

Nid oes greisis yn y byd nac yn yr ystorfeydd cyfoeth a roddwyd yn ei gypyrddau. Y mae digonedd o fwyd i bob dyn ar bob cyfandir, y mae digon o ddeunydd crai i adeiladu cartref cysurus i bob teulu a digon o gyfoeth yng Nghymru i roi pob mantais addysgol ac arall i bob plentyn a enir yn ein gwlad. Nid oes unrhyw ffawd anochel wedi darpar dioddefaint a newyn ar gyfer dynoliaeth. Dyn ei hun yn ei wallgofrwydd sydd wedi ymostwng i wisgo'r sham ac anwybyddu'r glendid. Petai'r pren afalau yn gwrthod ei ffrwyth a'r hedyn a blannodd ein llaw yn troi'n garreg ; petai'r afonydd yn gwrthod llifo, yr awyr yn troi'n fwg, a chariad mam yn troi yn gasineb, yna byddwn yn barod i gydnabod fod creisis yn bod. Eithr ni ddigwyddodd hyn ac ni ddigwydd byth. Ba hyd y dioddefwn wisgo'r sham ?

Petai'r fam neu'r penteulu yn taflu bwyd y cartref i'r gwter a dod 'nôl at y plant gan ddweud, "Mae'n ddrwg gennyf blant—mae prinder bwyd heddiw," fe'i danfonem i'r gwallgofdy. Eithr fe adawn i'n llywodraethwyr dywallt cyfoeth y wlad i gwter rhyfel a rhown iddynt ein pleidleisiau o ddiolchgarwch am hynny.

A dyma'r gair olaf. Un ystyr oedd gan y Groegwyr i'r gair creisis, a'u hystyr hwy iddo oedd "*dewis.*" Hynny a welaf innau yng nghyfyng-gyngor y ddynoliaeth—y mae'r *creisis* wedi dod—mae dydd y dewis wedi cyrraedd.

Once to every man and nation
Comes the moment *to decide,*
In the strife of truth with falsehood
For the good or evil side.

Beth yw eich dewis chwi ? Y da ynteu'r drwg ; y glendid ynteu'r sham ?

NADOLIG LLAWEN I BAWB !

Traethawd : "Yr achosion am y dirywiad Crefyddol yn ein gwlad."

(*Parhad.*)

V.—Rhyfeloedd 1914—18 a 1939—45.

Daeth rhyfel 1914—18 ar ein gwarthaf lawn mor sydyn â Diwygiad 1904—05. Yr oedd y papurau enwadol canlynol yn cefnogi'r rhyfel o'r cychwyn : *Seren Cymru, Y Goleuud* a'r *Llan.* Yr oedd *Y Gwyliedydd Newydd,* ar y llaw arall, yn datgan "nad oes

yr un rhyfel—*yr un rhyfel* yn un gyfiawn ac angenrheidiol" ; ond, fel y dywaid y Parch. J. H. Griffiths, M.A. yn ei lyfr, *Crefydd yng Nghymru*, t. 33—34, "ymhen llai na mis tystiai (*Y Gwyliedydd Newydd*) fod 'bron bawb yn credu fod Prydain Fawr wedi rhoddi cam iawn wrth anfon ei milwyr i gynorthwyo Ffrainc a Belgiwm ac fod yr egwyddorion dros y rhai y saif yn hollol unol â Christionogaeth, nid am fod yn dda ganddi ryfel nac ychwaith er mwyn unrhyw fuddiannau, ond yn hytrach er mwyn taro ergyd o blaid rhyddid ac yn erbyn y llu Philistiaid sydd yn llwyr ddyrysu heddwch y byd '." Ac nid oedd yr Annibynwyr yn wahanol i'r lleill. Dyry Mr. Griffiths, yn yr un llyfr, ddyfyniad o'r *Dysgedydd*, am Hydref 1914, a ddengys hynny. Dyma rhyw dair brawddeg o'r dyfyniad : seiliwyd y fyddin Brydeinig ar Wirfoddolaeth, am hynny cyfreithlon y weithred o oleuo'r Bobl a'u hannog i amddiffyn y deyrnas, ei breintiau a'i meddiannau. Gallem goelio fod hyn yn rhan naturiol o wasanaeth Eglwys Loegr i'r Wladwriaeth. Ond nid yw yr Eglwysi Rhydd yn llai eu sêl yn hyn o fater." Do, trodd llawer o weinidoglon yn fath o *recruitinug Agents* trwy areithio'n huawdl ar lwyfannau yn cynghori ac yn cymell dynion ieuainc i ymuno â'r lluoedd arfog—ac yr oeddynt yn cael "ambell gini am eu trafferth." Dywedodd y Brig. Gen. F. P. Crozier, yn yr ail bennod o'i lyfr, "*A Brass Hat in No Man's Land*," am grefyddwyr Lloegr : "*The Christian Churches are the finest blood-lust creators which we have, and of them we made free use.*" Fel y dengys y dyfyniadau uchod nid oedd crefyddwyr Cymru ymhell ar ôl Lloegr yn hynny o beth. Yn wir cafodd un mor lariaidd a thangnefeddus ag Elfed dwts o'r chwiw. Mewn toddaid yn clodfori "Gwladgarwch y Milwr," yng *Ngheninen*, Ebrill 1915, ceir y cwpled canlynol :

"Heb waed yn borffor ar fil o allorau
Ni cha gwladgarwch ei golud gorau."

"Ei golud *gorau*," sylwer.

Ond daeth Deddf Gorfodaeth Filwrol i rym ym Mehefin 1916, a chyn pen hanner blwyddyn gwelwyd gweinidogion (a oeddynt yn *Exempted Class* eu hunain) yn ymddangos gerbron Tribiwnlysoedd yn dadlau ac yn eiriol ar ran Gwrthwynebwyr Cydwybodol am gael eu hesgusodi rhag ymuno â'r lluoedd arfog. Mae'n debyg bod y rhai a fuont yn cymell y bechgyn i fynd i'r fyddin a'r rhai a oedd yn rhoi eu tystiolaeth ar ran y Gwrthwynebwyr Cydwybodol yr un mor gydwybodol a diffuant â'i gilydd. Ond gwelid gwên wawdlyd ar wyneb llawer o bobl—rhai ohonynt yn aelodau eglwysig hefyd—pan glywent neu pan ddarllenent hanes eisteddiadau'r tribiwnlysoedd hynny.

Daeth y Rhyfel i ben, a daeth y bechgyn adref—ond nid i gyd o lawer, yn enwedig y rhai a ymunodd â'r fyddin yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o'r brwydro. Beth am grefydd ? Ni chafwyd dim byd tebyg i "Ddiwygiad 1904—05"—a ddigwyddodd wedi rhyfel

Deheudir Affrica, a'r cyni a ddaeth ar y wlad yn y blynyddoedd hynny. Bu rhai o arweinwyr yr Eglwys yng Nghymru ac amryw o arweinwyr yr Eglwysi Rhydd yn proffwydo fod Diwygiad "ar ddyfod". "Y mae crefydd wedi gwneuthur camau breision ymysg y milwyr," meddid, "a phan ddaw'r hogiau adref fe gawn adfywiad crefyddol trwy'r holl eglwysi." Ond—a chwarae teg iddynt—yr oedd y rhai a fu'n gaplaniaid yn y fyddin yn fwy tawedog a gochelgar. Gwyddent hwy well pethau. O'r cyn-filwyr a ddaeth adref, ni thywyllodd cannoedd ohonynt ddrws na chapel nac eglwys byth rhagor. Ac am y rhai a laddwyd? Oni chlywyd aml i fam yn dweud rhywbeth tebyg i hyn: "Oni bai i Mr. Jones (y gweinidog) berswadio'r bechgyn i fynd i'r *army*, 'fase John ni ddim wedi 'listio pan wnaeth o." Ac aeth eu diddordeb mewn capel a chrefydd yn llai.

Rhwng y ddau ryfel cafwyd egwyl o ugain mlynedd. A blynyddoedd digon diflas oedd y rhan fwyaf ohonynt. Daeth y dirwasgiad masnachol fel hunllef ar y wlad. Ac eithrio'r Crynwyr, ni wnaeth Eglwyswyr nac Ymneilltuwyr fawr i geisio lleddfu pryder ac anobaith y rhai diwaith.

Daeth Rhyfel arall yn 1939. Rhowd Gorfodaeth Filwrol mewn grym ar unwaith. Nid oedd angen am weinidogion fel *recruiting agents* y tro hwn. "*Othello's occupation's gone*," oedd eu hanes yn y cyfeiriad hwnnw. Aeth amryw o'r rhai ieuengaf i'r lluoedd arfog fel caplaniaid.

Ar y llaw arall, ymhen rhyw naw mis wedi i'r Rhyfel gychwyn, trefnwyd amryw o "Ddyddiau Gweddi". Ond ni buont o fawr fudd i'r Cynghreiriaid. Dyma rai o'r dyddiadau—a'r hyn a ddilynodd:

Mai 26, 1940: Dydd o Weddi Cenedlaethol.

Mai 28, 1940: Brenin y Belgiaid a'i fyddin yn rhoi eu harfau i lawr.

Mehefin 9, 1940: "Sul o Ddiolchgarwch" am waredigaeth milwyr Prydain o Dunkirk.

Mehefin 10, 1940: Mussolini yn cyhoeddi rhyfel.

Mehefin 16, 1940: Dydd o Weddi ar ran Ffrainc.

Mehefin 16, 17, 1940: Bron cyn i'r "Amenau" ddistewi yr oedd y Cadfridog Petain yn erfyn am heddwch.

Buasai rywun a oedd yn berchen ar *sense of humour* wedi rhoi'r gorau iddi!

Yn ystod y Rhyfel hwn, fel un 1914—18, dywedid fod aelodau'r lluoedd arfog "yn troi at grefydd." Ond dyma dystiolaeth un a fu'n gaplan yn yr Awyrlu o 1941 hyd 1946, sef y Parch. Donald K. Oldring, B.D., gweinidog Eglwys Gynulleidfaol Beaconsfield, Swydd Buckingham, mewn llyfryn o'r enw *Can We Be Religious—To-day?* a gyhoeddwyd gan *The Union of Modern Free Churchmen*, 133, Hemdean Road, Caversham, Reading, pris 2/-, dywaid ef: "*The answer which I am here attempting to give is that of the men in the*

Forces. . . . One suggestion implicit in the very phrase 'the men in the Forces' is that somehow they are different from men in civilian life. And a further, though more remote, suggestion is that service life affects a man's religion in a marked way. Neither of these suggestions could be substantiated on the available evidence. Broadly speaking the man who was profoundly religious before entering the service remained so; the 'mildly religious' found it difficult to 'maintain the spiritual glow'; while the irreligious found no great constraint to become otherwise because of service life. A small number found that war experience shattered their religious faith and an even smaller number found religious faith for the first time while serving with the colours. . . . The blunt fact has to be faced that for the average man in the Forces 'being religious' is not a live issue." Sylwer: "nifer fechan" yn colli eu crefydd yn y Lluoedd Arfog, a "nifer lai fyth" yn cael crefydd am y tro cyntaf.

Credaf fod y Caplan hwn wedi dweud y gwir. Un peth sy'n eithaf sicr: yr oedd cymaint o wrthwynebiad ymhlith aelodau'r Lluoedd Arfog, ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, i'r *Church Parades gorfodol* fel y bu'n rhaid i'r Senedd eu diddymu.

Pa effaith a gafodd y Rhyfel ar y bobl nad oeddynt yn y Lluoedd Arfog, ond y bu raid iddynt wynebu'r tân—cyrchoedd yn yr awyr—fel y lleill? Yr oeddwn i yn byw yn Abertawe ar hyd y Rhyfel. Buom yn cael "Rhybudd" rhwng wyth a naw o'r gloch bron bob nos am fisoedd. A gŵyr pawb i adeiladau yn gorchuddio aceri o dir yng nghanol y dref gael eu chwilfriwio gan fomiau. Yr oeddwn i yn *A.R.P. Warden*—ac wrth fy nyletswydd yn ystod y dydd gan mwyaf; felly, cefais gyfle da i glywed syniadau'r trigolion. A oedd gan y bobl ofn y cyrchoedd? Oedd. Ond nid ofni *marw* yr oeddynt; ond ofn cael eu hynafu: ofni *poen*, ac nid ofni *angau*. Esboniwch chwi'r peth y ffordd y mynnoch—dyna'r ffaith. Distrywiwyd dwy eglwys a rhyw hanner dwsin o gapeli yn y dref. Nid oes sôn hyd yn hyn (dechrau Rhagfyr 1951), am ail-adeiladu ond un ohonynt, sef Eglwys y Santes Fair—eglwys y plwyf. Yn rhyfedd, ni ddinistriwyd yr un sinema yn y dref. Cafodd dwy ryw gymaint o niwed, ond yr oeddynt wedi eu hail-agor ymhen ychydig ddyddiau. A'r peth diwethaf a wnaeth etholwyr Abertawe oedd pleidleisio (ar y 7fed o Dachwedd eleni), o blaid agor y sinemâu ar y Sul. Dyma'r ffigurau:

	O Blaid	33,353
	Yn Erbyn	30,445
	Mwyafrif o Blaid	2,908

56 y cant o'r etholwyr a bleidleisiodd. Gwnaeth yr Eglwys yng Nghymru a'r gwahanol enwadau eu gorau glas i geisio perswadio'r etholwyr i bleidleisio yn erbyn y cynigiad. Ond ymddengys nad oes gan grefyddwyr y dref ddylanwad o gwbl ond ar ryw un o bob pedwar o'r etholwyr.*

*Mae'r sinemâu yn agored ar y Sul yn Abertawe yn awr.

(*I Barhau.*)

Salmau'r Mynydd Eleni.

Gan H.M.

DATHLU YNG NGELLIONNEN.

DYMA flwyddyn y dathlu'n dod i ben ; dathlu Gwyl Brydain, ledled y wlad, a dathlu hefyd, yn eglwys Gellionnen a'r Graig, y ganrif a hanner o waith da, a aeth heibio, oddiar codi'r capel presennol, ar y mynydd. Dyma eglwys gadeiriol yr unigedd, ond 'slawer dydd yr oedd yn gapel min-y-ffordd.

Cawsom ganu mawl yno ar nos Sul ym Mehefin, a'r Sadwrn canlynol cawsom gyfarfod Jiwbili Cymdeithas Undodaidd De-Ddwyrain Cymru, a'r Prifathro J. D. Jones yn rhoi hanes y capel. Priodol oedd yr oedfa, oblegid yn y fan yma yn 1802, y cychwynwyd Cymdeithas Undodaidd De Cymru, dan arweiniad y Parch. Josiah Rees, gweinidog Gellionnen, cyn a wedi codi'r muriau presennol.

Ar ddiwedd y mis, wele ni'n cael gwasanaethau'r blodau, un y bore ar y mynydd, a'r Parch. Dudley Richards, B.A., B.D., Bradford yn ein hannerch—darllenodd yr ysgrythur yn Gymraeg. Disgwyliasom, hefyd, am gael cwrdd ar y mynydd, nos Sul yng Ngorffennaf, ond oherwydd colli ohonom ein hannwyl gyn-aelod, y Parch. E. O. Jenkins, a oedd i fod i bregethu, ni chawsom yr oedfa.

Ar y nos Sul cyntaf ym Medi, daeth y Parch. J. D. Jones, eto i'r mynydd i siarad ar hanes yr achos, ac yn Hydref, wele ni'n mynd mewn dau fws i Benrhiw, i gael gwasanaeth yno, cyn symud yr adeilad hwnnw i Sain Ffagan. Dyma'r neilltuolaf achlysur, oddi ar diwrnod ei angladd yn Llwynrhydowen, i gofio ein brawd E. O. Jenkins, a ddaeth i Benrhiw i bregethu yn ei dro. Diwrnod hyfryd oedd hwn, a'r dail—ar ôl hir haf—yn dechrau troi'u lliw ; daeth y Parch. Marles Thomas i gynorthwyo'n gweinidog, y Parch. Islwyn Pritchard, a'n cyn-weinidog, y Prifathro J. D. Jones, yn y gwasanaeth toddaidd, hwnnw yn yr hen fangre, oedd braidd yn anadnabyddus i ni, a'i naws mor debyg i naws ein mynydd ni. Addas oedd i ni gofio mai aelod yma oedd ein henwog Barch. John James. Wedi te braf yn ysgoldy'r Graig, Llandysul, dychwelasom o dan leuad lawn.

Ar fore'r Sul diwethaf yn Hydref, cawsom y Parch. G. Randal Jones, B.Sc., B.D., M.A., Bridport, Llywydd y General Assembly, i'n hannerch ar y mynydd. Bu'r hin yn braf bob tro eleni ; cawsom wenau'r ffurfafen oddigerth y tro diwethaf, y Sul cyntaf o Dachwedd, pan gawsom y Cyrddau Diolchgarwch, yn y bore ar y mynydd, a'r glaw'n hongian oddi ar y mwyar duon yn y perthi.

Cenir salmau o hyd ar ein taith yng Ngellionnen, ac i ddathlu mewn modd mwy arhosol, yr ydym hefyd wedi paratoi casgliad o emynau a thonau, o waith aelodau a chyn-aelodau, i'w gyhoeddi eleni. Wrth ei alw'n Salmau'r Mynydd cofiwn yn neilltuol fod i'n tadau ganu'r salmau ar fydr cyn canu emynau cyfansoddedig, a bod y salm fydryddol mewn bri yma hyd at yr amser pan ddaeth ein llyfr emynau cyntaf allan yn 1878. Cofier yn neilltuol fod y Parch. Josiah Rees wedi cyhoeddi casgliad o Salmau yn 1797 a bod Iolo, wedyn, wedi cyfansoddi mydryddiad o'r Salmau yn 1882. Fe'u cyhoeddwyd yn ddiweddarach yng nghasgliad o Hymnau a Salmau y Parch. John Jones, Aberdâr yn 1857.

Cymwys felly yw teitl ein casgliad newydd "Salmau'r Mynydd". Cofier hefyd mai hen gynllun yw hwn, hen gynllun yn cael ei ddwyn i ben eleni. Dechreuwyd arno fel llyfr i lanw'r bwlch pan aeth y *Perlau Moliant* cyntaf allan o brint. Eithr pan ddaeth y Casgliad Cyntaf o Emynau a Thonau allan yn 1918, gadawyd y gwaith a bu'n gorwedd ar waelod cypyrddau ac mewn ysgrif-lyfrau hyd at y flwyddyn hon. Ac er clod i Dduw, fe gyhoeddir "Salmau'r Mynydd" (gydag ychwanegiadau at yr hen gasgliadau) eleni.

[Fe gyhoeddir traethawd manwl ar gefndir "Salmau'r Mynydd" yn rhifyn Ionawr. Awgrymaf y dylai pob aelod o eglwysi Gellionnen a'r Graig sicrhau copi o'r YMOFYNNYDD hwn yn enwedig os ydynt am gael y gorau o'r casgliad newydd.—*Gol.*]

Fy Ngyrfa hyd yma.

Gan HESGIN.

GANED fi ar y 15fed o Ragfyr, 1872, yng Nghwm Hesgin, fferm fynyddig ym mhlwyf Llanfor, rhyw bum milltir i'r gogledd-orllewin o'r Bala.

Euthum i'r ysgol i Lan'rafon, Cwmtirmynach. Yr oedd fy athro cyntaf—Edward Parry—yn credu yng nghyfundrefn y "Welsh Note", a chefais brofiad o'r gospedigaeth a weinyddid (am imi feiddio siarad Cymraeg yn ystod oriau'r ysgol), o dan yr oruchwyliaeth benbylaidd honno.

Gadewais yr ysgol wedi imi gyrraedd "Standard Five". Ceisiwyd gwneud bugail ohonof, ond methiant llwyr a hollol a fu'r ymgais. Yn y diwedd cefais fy nymuniad, sef mynd yn "brentis o brintar". Bwriais fy mhrentisiaeth gyda Mr. Humphrey Evans—yn ei Swyddfa ym Mlaenau Ffestiniog i ddechrau, ac yn y Bala wedyn.

Bûm yn gweithio wrth fy nghrefft yn Llandudno, yn Nhreherbert (lle y bûm yn cysodi'r gyfrol *Pregethau Islwyn*), yn Swyddfa

South Wales Daily News, Caerdydd (dau dymor), yn Swyddfa Mr. J. E. Southall, Casnewydd, ac yn Swyddfa'r *Western Mail*, Caerdydd. Dylwn ddweud mai yn y *jobbing department* yr oeddwn yn gweithio yn y *News* a'r *Mail*, ac nid ar y papurau.

Yn 1910 euthum i'r Gwasanaeth Sifyl. Yr oeddwn yn un o'r fintai a agorodd y *Labour Exchanges* cyntaf, Chwefror 1, 1910. Fy swydd gyntaf oedd clerc (ac yn cael fy nghyfrif fel dirprwy-oruchwyliwr) yng Nghasnewydd. Wedyn bûm yn oruchwyliwr Swyddfeydd Abertileri, Llanelli (ddwywaith), ac Abertawe. Ymneilltuais ym mis Awst, 1934 ac yr ydwyf wedi bod yn byw yn Sgeti, Abertawe oddi ar hynny.

Dechreuais "sgwennu i'r wasg", o dan y ffugenw "Hesgin" tua 1904 : i'r *Darian* i ddechrau, ac wedi hynny i'r *Brython*. Ysgrifennwn yn weddol gyson i'r *Brython*—o dan olygiaeth J. H. Jones, ac, yn ddiweddarach, Gwilym R. Jones. Pan unwyd y *Brython* â'r *Cymro*, dewisais ddilyn y golygydd i swyddfa'r *Faner*, yn hytrach na chanlyn y papur i swyddfa'r *Cymro*. Yr ydwyf wedi ysgrifennu cryn dipyn i'r *Faner* oddi ar hynny : o dan olygiaeth Prosser Rhys i gychwyn, ac wedi ei farw ef, o dan olygiaeth Gwilym R. Jones. Ysgrifennais amryw o erthyglau, etc., i gyfnodolion, er enghraifft, *Heddiw*, *Y Fflam*, *Yr Enfys*, etc. Yr ydwyf hefyd yn ysgrifennu i'r *Cyfnod*, papur newydd wythnosol a gyhoeddir yn y Bala gan Mr. Idris Evans, mab fy hen feistr, yn lled aml.

Fe gadwyd y gyfrinach pwy oedd "Hesgin" yn lled dda am flynyddoedd lawer. "Brynallt", yn y *South Wales Press*, Llanelli, a ollyngodd y gath o'r cwd yn y diwedd.

Ni fûm erioed yn cael fy nghyfrif fel aelod o *staff* unrhyw bapur. A chan fy mod—y rhan amlaf—yn byw "ar fy mwyd fy hun" fel y dywedir, gallaf ysgrifennu neu beidio fel y mynnaf.

Ni fu gennyf erioed awydd i gymryd *Journalism* fel *profession*. Gwnaeth llawer o gysodwyr hynny. Y ddau brif reswm paham na ddilynais i eu camau hwy oedd : (1) Fy mod yn rhy ddiog i ddysgu ysgrifennu llaw-fer ; (2) Mai yn araf iawn y byddaf yn cyfansoddi fy ysgrifau, etc.

Ty Cwrdd y Plant.

"Y NODWYDD".

ADNOD o Math. xix. 24 : 'Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i Deyrnas Dduw".

1. Dywedir fod lle i gamelod i fynd i mewn i Jerusalem wedi i'r pyrth gau, drwy ddrws bychan a godid i fyny ; ond yr oedd yn anodd gwneud hynny.

2. Gwneir y nodwydd o ddur ac felly nid yw yn hawdd ei phlygu. Mae plant ac ereill yn rhy barod i blygu i swynion dylanwadau drwg.
3. Mae y nodwydd yn flaen-llym : felly y pensil, nid yw fawr gwerth os na fydd blaen iddo. Mae pen blaen y llong yn llym fel y gall dorri drwy'r tonnau yn rhwydd.
4. Ceidw y nodwydd ei hun yn lân drwy fod mewn gwaith, a thrwy weithio ni ddaw rhwd yn agos ati.
5. Gweithia'r nodwydd o'r golwg, a gwna ei gwaith yn effeithiol. Na fydded i ni weithio o herwydd fod ereill yn ein gweled.
6. Gadawa'r nodwydd ei gwaith ar ôl, a felly byddwn ni yn gadael y byd yn well neu yn waeth yn ôl ein gweithredoedd.
7. Os collir y nodwydd (yr hyn a all yn hawdd ddigwydd) gall fod yn berygl i bobl ereill. Y peth gorau yw myned i'r lle y collwyd hi ohono, ac wrth chwilio yn ddyfal, efallai y deuir o hyd iddi drachefn. Ond—os collwch eich cymeriad, ni chewch ef yn y lle y collasoch ef. Er enghraifft, os mai yn y dafarn y collasoch ef, ni fyddwch well o fynd i edrych amdano yno, oblegid ni chewch ef.

Nodiadau gan y diweddar Mr. Ivor J. John,
Cyn-Ysgrifennydd Siloa, Aberdâr.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

Cynhelir yr Arholiad Ddydd Sadwrn, Mawrth yr 8fed, 1952.

Safon I (o dan 9 oed) Llafar : "Hanes Iesu i Blant", gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., penodau 2 a 3.

Gwaith ar gof : Dysgu geiriau'r emyn "Calon Lân".

* * *

Safon II (o 9 hyd 12 oed) Llafar ac Ysgrifenedig : "Hanes Iesu i Blant", gan T. Oswald Williams, M.A., penodau 4 a 5.

Gwaith ar gof : I Corinthiaid 13—y bennod i gyd.

* * *

Safon III (o 12 oed i fyny). Ysgrifenedig : "Egwyddorion yr Undodiaid", gan y Parch. J. Islan Jones, M.A. ; penodau—"Duw yn ei ddatguddio ei hun", "Dyn yn tyfu at berffeithrwydd", "Anfarwoldeb yr enaid", "Gweddi", "Y Beibl", "Pechod", "Edifeirwch a Maddeuant", "Gwyrthiau", "Addoli", "Yr Eglwys" a "Dyn fel aelod o Gymdeithas".

S. A. Evans (*Ysgrifennydd*).

Dedwyddfa,
Llandysul.

Miss R. M. Evans, N.D.D., Ffynnonfair.

Gan S. A. Jones, Llandysul.

Pan ddêl yr Hydref i alw bywyd yn ôl o'r dolydd a'r gelltydd, fe etyb llawer gweithiwr a gweithwraig yr alwad i fynd adref i fwynhau'r gorffwys a haeddant. Tlodwyd ni fel enwad drwy symud o'n plith rhai da eu gair gan y gwirionedd. Bydd cwyno hir am ambell chwaer a gollwyd yng Ngheredigion, ac y mae galar trwm ar ôl y chwaer ragorol—Miss R. M. Evans.

Hanai o hen linach da. Hi oedd merch ieuengaf y diweddar Henadur a Mrs. David Evans, Ffynnonfair. Nid yw'n rhyfedd iddi brofi yn allu ac yn fendith mewn llawer cylch, oblegid magwyd hi ar aelwyd a roddai orau ei medr goleuedig i ffarmwriaeth. Rhoes hefyd amser ac athrylith i ddiwyllio yr ysbryd. Cynnyrch argyhoeddiad oedd ymlyniad yr hen deulu wrth grefydd ac anghydffurfiaeth.

Credwn i Miss Evans gysegru ei galwedigaeth i ogoneddu Duw mewn natur a gras. Enillodd safle uchel iddi ei hun ym mywyd amaethyddol Sir Aberteifi. Gadawodd enw da a dylanwad dyrchafol ar y cylchoedd yr ymwelai â hwynt,—a pha waddol ysbrydol uwch a all crefyddwr adael ar ôl ymweliadau cyffredin bywyd? Bu'n arloesydd ym myd addysg amaethyddol yn y Sir, ac ni fu ball ar ei hymroddiad a'i haberth drwy flynyddoedd cyfyng y rhyfel. Rhoes feddwl diwylliedig a gweodd gydwybod i mewn i waith mawr ei bywyd.

Eithr ni chyfyngodd ei diddordeb na'i hymdrechion i'w galwedigaeth feunyddiol.

Bu'n eithriadol brysur gyda mudiadau eraill diwylliannol—sef Clybiau'r Ffermwyr Ifainc, a'r "W.I.". Manteisiai ar bob cyfle i bwysleisio'r gwirionedd y dylai diddordeb pawb fod yn uwch a lletach na chylch yr alwedigaeth. Credai yn angherddol y dylai ac y gallai'r chwiorydd gyfrannu yn sylweddol at waddol meddyliol, moesol ac ysbrydol pob ardal. Mewn gwleidyddiaeth bu'n frwd yn eu hymdrech dros Ryddfrydiaeth. Dyna gredo danllyd yr hen deulu, a brwydrai hithau yn ddiball dros yr un egwyddorion aruchel.

Yr oedd yn Undod-wraig o argyhoeddiad. Nid traddodiad oedd Undodiaeth iddi hi, ond tarddiad a bwrlwm grisial beunyddiol. Gallai roi ateb am y gobaith a oedd ynddi bob amser. Dyna a esboniai y dylanwad a gyd-gerddai â'i gweithgarwch crefyddol. Addolai'n gyson yng Nghapel-y-Groes, a sugnai ei nerth o'r fan hon i gwrdd â holl alwadau bywyd.

Anrhydeddwyd hi gan chwiorydd yr Enwad drwy ei hethol yn Llywydd Mudiad y Gwragedd, a chyfiawnhaodd y dewisiad i'r eithaf.

Cawsom ni yn Sir Aberteifi brofion droeon a thro, o'i medr i drafod cwestiynau dyrus mewn ysbryd cariadus. Ei chymeriad ysbrydol a roes iddi y mewn-weledigaeth proffwydol a fu o gymaint gwerth iddi mewn cynadleddau o bob math.

Pwy a fu'n ffyddlonach gyda'r Gymanfa Ganu ? Gwelid hi bob amser ar y Galeri gyda'r chwiorydd ac fe arllwysai cân o'i chalon bob amser. Nid rhyfedd fod y chwiorydd ieuainc yn mynwesu parch dwfn i'w phersonoliaeth hawddgar.

Ni chaed ei gwell i lywyddu pwyllgor neu gynhadledd. Yr oedd ganddi ffordd arbennig o drafod y materion. Swydd digon annifyr yn fynych yw swydd Trysorydd, a chofir yn ddiolchgar gan yr holl Sir am ei ffordd lwyddiannus hi i sicrhau cydweithrediad. Byddai'r cyfrifon yn barod yn brydlon—a rhoddai Adroddiad llawn yn llawen ym mhob cwrdd. Pan lywyddai ar bwyllgorau caed rhyw wastadrwydd hyfryd yn nhôn y gweithrediadau.

Credai mewn dwyn pobl i adnabod ei gilydd,—a beth yw bendith fwyaf Cristionogaeth ond "Cymdeithas"—cymdeithas a Duw a chymdeithas a'n gilydd ?

Cofia lliaws am ei brwdfrydedd yn ei hymdrech i gael 'Trip Undebol y Sir' o dan Fudiad y Gwragedd. Dyma un o'i chyfryngau i helpu pobl i adnabod ei gilydd. Teithiau hapus oedd y rheiny,—a hithau yn ei hafiaith.

Credai yn y Noson Lawen. Caed llam a heulwen lond ei natur,—cofir am ei direidi, ei donioldeb a'i hasbri. Bu ar gylch yn fynych, mynych yn rhoi "Demonstration" neu yn darlithio. Unwaith y ceid ei haddewid, yr oedd honno fel y Banc. Yr oedd wedi cysegru ei chof i gadw pob addewid yn fyw hyd oni chyflawnid hi.

Mynnodd wybod hanes yr enwad a hanes y Cynulleidfaoedd drwy Gymru, oblegid ymffrostiai yng nghyfraniad cyfoethog yr Undodiaid i Ryddid, Addysg a Chydwybod Gymdeithasol.

Cymhellodd y Chwiorydd ar hyd ei hoes i ddiogelu yr hanfodion mewn crefydd ; bu'n dadlau beunydd am i famau a merched yr Eglwysi i ehangu terfynau, a chymryd mater addysg grefyddol o ddifrif.

Distawodd ei hapeliadau taer a thirion erbyn hyn—a'n braint ninnau a'i hadnabu ydyw dal i gyhwfanu'r faner—a'i dal heb ei gostwng na'i llychwino. Diolch i Dduw am fywyd gloyw a gwasanaeth helaeth yr annwyl "R.M.".

Mwyn fo'i hun yng Nglyn y Gorffwys.

Mae'r Stori ar Led.

Gan Medde Nhw.

Mae'r stori ar led fod rhai yn credu eu bod wedi dal "Gwalch Ogwr a'i fogi am byth, ond y rhyfeddod yw fy mod wedi cyfarfod â thri pherson pwysig o'r enwad a'r tri hynny yn enwi tri gŵr gwahanol fel y *Gwalch.* Fe fydd rhywrai ar drac ' Medde Nhw cyn hir, ond carwn roddi un rhybudd i bob ditectif llenyddol, a dyma fo : gwaith hawdd yw chwilio ôl rifynnau o'r Ymofynnydd a benthyca ambell frawddeg y mae rhai o'n gwŷr blaenaf yn hoff ohonynt. *Hynyna gyda llaw* !

Os digwydd i mi ddefnyddio'r gair *parthed*, er enghraifft, peidiwch beio gweinidog newydd y Graig a Phantydefaid, neu fel yr hoffai eraill ddweud, gweinidog Pantydefaid a'r Graig. Mae'r stori ar led erbyn hyn fod pethau yn ymloywi yn y ddwy eglwys, y bobl ifanc yn brysur wrth eu gwaith, y seti'n llawnach a'r defaid a fu ar gyfeiliorn yn dychwelyd i'r Pant. Hyd yn hyn y mae gwŷr Cefn Coed yn weddol dawel ond y mae'r blaenoriaid yn llygadu hwnt ac yma. Pobl sy'n medru gweld ymhell yw pobl Cefn Coed, ac y mae'r stori ar led eu bod yn *edrych* ymhell hefyd—am fugail newydd —edrych dros y Clawdd mewn gwirionedd. Fe fydd galwad yn y dyfodol agos *medde nhw* a gorau po gyntaf. "*Llunier i gall hanner gair.* . . ." Gan fod gan y Parch. E. J. Williams, Nottage lythyr yn ei boced oddi wrth eglwys Lewin's Mead gall Lloegr a Chymru ymarfer ychydig o "*give and take* !"

Mae'r stori ar led hefyd fod llythyron ym mhoced un o'n gweinidogion mwyaf parchus, a'r rheiny wedi dod oddi wrth weinidog ifanc o enwad arall. Cadwyd y peth yn dawel bach hyd yn hyn, ond cofier fod clustiau yn clywed a llygaid yn gweld a'r *gath yn dod o'r cwdyn.* Cyn iddo ddod, carwn roddi un rhybudd iddo. Onid yw a'i lygad ar bulpud Cymry Llundain neu un neu ddau o fannau eraill fe gaiff anhawster i gael lle i aros dros ddiwedd yr wythnos, fel y mae'r cwstwm yn ei enwad ef. Yn yr hen amser ffynnai'r arfer o *gadw'r mis*, ond heddiw y mae'n prysur droi yn arfer o *gadw'r rations.* Gynt, fe ofynnid am ddawn a gallu pregethu oddi wrth weinidog, heddiw, *medde nhw*, yr unig allu a ofynnir yw'r *gallu* i fynd adref nos Sul ar ôl pregethu. Mae'r stori ar led fod un myfyriwr yn cario potel o bop a phaced o grisps yn ei fag yn lle pijamas.

Y mae holi mawr yn Nhrebanos erbyn hyn am beth ddaeth o'r penderfyniad i hyrwyddo gwaith ieuenctid ym mysg yr eglwysi Cymraeg. Fe'i pasiwyd yn Llwynrhydowen ond ni chlywyd sôn amdano yng Nghiliau. Talwyd cryn sylw i Benrhiw ac y mae'r stori ar led fod yr Undodiaid, a arferai edrych ymlaen wedi mynd fel pob enwad gan fodloni ar edrych 'nôl.

Mae'r stori ar led . . . ond gwell ei chadw erbyn y tro nesaf !

Priodasau.

Yng Nghapel-y-Bryn, dydd Sadwrn, Tachwedd 10fed, a'r Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu, unwyd mewn priodas EVAN JAMES JONES, Isfryn, Cwrtnewydd a HANNAH JANE EVANS, Bryndelyn, Gorsgoch.

Dydd Mawrth, Tachwedd 6ed, yng Nghapel Cribyn, priodwyd MARGARET ANNA, merch hynaf Mr. a Mrs. Jenkins, Glasfryn ac ALBERT VINCENT REES, Cefneithin, Sir Gaer. Y Parch. J. Islan Jones yn gwasanaethu.

Hir oes a phopeth dymunol i'r deuoedd.

Medi 1af, yng nghapel Caeronnen gan y Gweinidog a chynhorthwy Mr. Walters, gweinidog y gŵr ifanc, ac o flaen y Cofrestrydd, unwyd mewn glân briodas RAY, merch ieuengaf y diweddar Mr. a Mrs. Davies, Llwynifan a JOHN R. MORGAN o Bontrhydfendigaid, ill dau weithian ers tro yn y Brifddinas. Nodded y Nef a fo trostynt.

Awst 11, ym Mrondeifi gan y gweinidog ac o flaen y Cofrestrydd, unwyd mewn glân briodas MEGAN GLENYS, merch Mrs. Morgan a'r diweddar William Morgan, Tŷ'r Cyngor, Treherbert, Llanbedr, a HERBERT EDWARD JOHN MOORE o Lundain. Priodas dda i'r ddeuddyn !

Marwgofion.

Gorffennaf 23, yn 26 mlwydd oed bu farw WILLIAM DOUGLAS DANIEL THOMAS. Mab ydoedd i Mr. a Mrs. William Thomas, Greenhill, Pentrecagal, Castellnewydd Emlyn, ond adwaenir y tad yn well fel mab Penbanc, Capel Dewi. Bachgen hoffus a nwyfus oedd Douglas yn llawn o natur dda. Cofir amdano yn y swyddfa yn Llanbedr cyn iddo ymadael am y brifddinas. Sergeant Pilot yn yr R.A.F. ydoedd weithian ac ar y dydd uchod yn hedfan uwchben un o siroedd canol Lloegr. Ni fedrir esbonio sut na pham. Ni ellir cyfrif am ddamwain. Digon yw gwybod i'w eroplên syrthio fel carreg ac iddo yntau gael ei ladd ar amrantiad, gan rwygo calon tad a mam. Claddwyd ar yr 28ain o Orffennaf ym mynwent eglwys Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr gyda chynhorthwy parod clerigwyr y plwyf a'r Parch. S. E. Bowen. Gadawodd dad a mam, brawd a chwaer a nifer mawr o ffrindiau i alaru o golli Douglas mor ddirybudd.

Awst 31, yn 85 mlwydd oed, bu farw ANNE JENKINS, Glenover, Llanbedr, chwaer i'r diweddar Barch. E. O. Jenkins. Yr oedd wedi cartrefu gyda'i nith yng Nglenover ers rhai blynyddoedd bellach, lle y cafodd bob

gofal a thynerwch. Yr oedd wedi bod o wlad ei genedigaeth ers blynyddoedd gan wasanaethu yn yr Alban a mannau eraill, ond daeth adref atom yn y diwedd. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, Lewis Williams ac S. E. Bowen. Heddwch i'w llwch.

Dydd Llun, Hydref 15, bu farw Mrs. ELIZABETH TURNER, Caerau Bach, Llanwenog yn 82 oed. Dioddefodd gystudd hir yn amyneddgar iawn. Yr oedd parch mawr iddi yn ei chymdogaeth ar gyfrif ei gwasanaeth parod. Hi hefyd oedd bob amser, tra parodd ei gallu yn berwi'r dŵr i wneuthur tê yng Nghapel-y-Cwm ar adegau arbennig. Yn yr angladd y dydd Gwener dilynol gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Lewis Williams, D. H. Williams, Horeb, Rhydargaeau a S. Morgan, Ficer Llanwenog. Daearwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel-y-Cwm. Gadawodd mewn galar dwys o'i cholli briod, merch a dau o wyrion yn y cartref, mab a llawer o berthynasau eraill.

Ar ddydd Gwener, Hydref 26ain bu farw Miss R. M. EVANS, Ffynonfair yn 63 oed ar ôl cystudd caled am rai misoedd. Hi dreuliodd fywyd gweithgar a defnyddiol iawn ; yr oedd yn adnabyddus i gylch helaeth o bobl yng Ngheredigion a thu allan i gyffiniau'r Sir, yn bennaf fel trefnydd a darlithydd mewn cysylltiad a llaethyddiaeth. Aeth drwy gwrs trwyadl o efrydiaeth i baratoi at y gwaith hwnnw. Bu yn Ysgol Ramadeg y Parch. D. Evans yng Nghribin, yn Ysgol Uwchradd Llanbedr, ac yn Ysgol Flitheg Northallerton ; wedi hynny aeth i Brifysgol Aberystwyth am dair blynedd, lle'r enillodd Ddiploma (yr N.D.D.) am laethdriniaeth. Bu am gwrs ychwanegol mewn Cemeg a Bacterioleg ym Mhrifysgol Reading, a chwrs ar drin dofednod yng Ngholeg Kilmarnock, ac yn ddiwethaf oll bu'n astudio Coginiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'n athrawes deithiol mewn llaethyddiaeth o dan Brifysgol Aberystwyth, ac ar ôl hynny yn addysgu'r gwyddorau a enwyd yn Ysgol Amaethyddol Castell Madryn, Pwllheli. Yn 1917 apwyntiwyd hi yn athrawes dros sir Fôn, ac yn 1923 etholwyd hi i gyffelyb swydd yng Ngheredigion, ac yn olaf yn brif-swyddog ymgynghori'r Sir yn Nhrawscoed. Yr oedd ganddi allu a dawn i siarad yn gyhoeddus, a bu yn darlithio'n dderbyniol iawn drwy'r Sir a thu allan. Bu hefyd yn beirniadu mewn ugeiniau o ddangosfeydd amaethyddol. Yr oedd Miss Evans yn aelod o Gapel-y-Groes er pan sefydlodd ei theulu yn Ffynonfair yn 1901. Hanai o deulu Undodaidd ; y mae llawer ohonom yn cofio ei thad—un o fechgyn Craigwen a'i frodyr yn bileri'r achos, a blaenoriaid y gân yn Rhydygwin—Dan yn faswr, Tim a Benny'n denoriaid, a'r olaf hefyd yn arweinydd y gân o dan Dafydd Hughes, Rhydyfydr ; ond nid mater o draddodiad teuluaidd yn unig oedd crefydd Miss Evans, yr oedd ganddi resymau digonol dros y grefydd a broffesai a'r gobeithion a goleddai. Yr oedd yn selog dros ei henwad ond nid yn gulfarn. Yr oedd hi yn un o'r tair a sefydlodd Urdd y Benywod (*The Women's League*) yn Sir Aberteifi, ac ar ochr gymdeithasol crefydd, y mudiad hwnnw fu ei phrif ddiddordeb, a bu galw mawr am ei gwasanaeth i annerch y gwahanol gyfarfodydd. Yr oedd

bob amser yn hawddgar ac ewyllysgar, a pharod i gynorthwyo lle byddai angen ; ac o'i symud hi, fe fydd bwlch amlwg ym mywyd crefyddol a chymdeithasol y cylch helaeth y perthynai hi iddo. Bu ei hangladd ddydd Mawrth, Hydref y 30ain yng Nghapelygroes. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parchn. Dewi Jones, Ficer Silian ac E. Sedgemore, Curad Castellnedd ; ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. Noel James, B.A., Capelygroes ; J. Islan Jones, M.A., Cribin ; J. D. Jones, B.A., B.D., Prifathro Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin ; J. W. Hughes, B.A., Rheithor Cellan ; T. Oswald Williams, M.A., Brondeifi ; Lewis Williams, Rhydygwin ac S. Morgan, B.A., Ficer Llanwenog. Daeth torf luosog o bell ac agos i dalu parch iddi ar ddydd ei harwyl.

Hydref 27ain, yn Tŷ Ucha', Craig-Cefn-Parc, yn 67 mlwydd oed, bu farw HENRY JENKIN MORGAN. Un o'r Morganiaid o Drebanos oedd ; ymbriododd â merch Bancyffynon, Craig-Cefn-Parc, a chartrefodd yn yr ardal oddiar hynny. Yr oedd yn aelod ffyddlon iawn yng Ngellionnen. Bron nad ai Sul heibio na welwyd ef a dau neu dri o'r plant yn bresennol. Gŵr hawddgar, addfwyn, a thad tyner oedd. Collodd ei iechyd trwy anadlu llwch y glo, ac felly bu'n gyfyngedig i'w gartref am rai blynyddoedd. Gadawodd i alaru o'i golli dri mab a dwy ferch a'u teuluoedd. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Gellionnen, a'r gweinidog yn gwasanaethu ac yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Robin J. Williams, Pantycrwys.

Hydref 26ain, ym Mherthygwenin, Cei Newydd, bu farw WILLIAM LEWIS BOWEN yn 65 mlwydd oed. Hannai o deulu parchus Cilwaunyddfach, Capel Evan, gerllaw hen gapel Panteg. Ni bu yn briod, ac wedi i'r gweddill o'r teulu godi adain dros y nyth arosodd ef ar ôl i ofalu am y fferm. Er pan yn ieuanc iawn dygwyd ef i addoli i Banteg, lle cafodd y rhan fwyaf o'r teulu eu dwyn i fyny. Wrth odre'r rhiw o dan yr hen gapel rhed afon Mamog. Yma y bedyddiwyd ef a'i frawd, y Parch. S. E. Bowen, Alltyblaca, gan yr Hybarch John Davies tua 50 mlynedd yn ôl. Trwy'r blynyddoedd arhosodd yn ffyddlon i'r fangre yn y Cwm, a bu yn apostol distaw didwyll i'r achos Undodaidd yn y cylch. Pan fu farw ei dad, dewiswyd ef yn olynydd iddo fel ysgrifennydd yr achos, a bu am gyfnod o 30 mlynedd yn y swydd. Heblaw gofalu ar ôl trefniadau ysgrifennydd y Capel, ef hefyd oedd y "Codwr Canu." Melys y goffadwriaeth amdano yn ei sedd gornel yn arwain y gynulleidfa yn y moliant. Cadwodd y ddwy swydd gyda ffyddlondeb diball drwy'r blynyddoedd, a thra bu yn ysgrifennydd ni chollodd yr un gwasanaeth a gynhaliwyd yn y lle. Tua pum mlynedd yn ôl ymfudodd i Berthygwenin i fyw nawnddydd ei oes gyda'i annwyl chwaer Mrs. Evans (nee, Sister Bowen) yr hon a ofalodd yn dyner amdano yn ystod ei afiechyd hir. Gŵr hynaws ei gymeriad, tawel a diymhongar, a ffyddlondeb a sêl i'r achos yn nodwedd o'i ysbryd. Perchid ef gan bawb a'u hadnabu ym Mhanteg a'r Cei. Tystiolaeth i hynny oedd y dorf a ddaeth ynghyd ddydd hebrwng ei weddillion i hen fynwent Panteg—"Macpelah'r" teulu. Cymerodd yr angladd le dydd Mawrth, Hydref 30ain. Yn y tŷ cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchn. T. Pugh Jarman (A), Maenygroes ; D. A. Thomas, Ficer a Victor Thomas (M), Cei

Newydd. Ym Mhanteg, a gwasanaeth byr yn y Capel, cyn dod at lan y bedd, cymerwyd rhan gan y Parchn. J. Marles Thomas, T. Pugh Jarman a W. Thomas (A), Capel Evan. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu hiraeth.

TACHWEDD 4, yn 67 mlwydd oed yn dra disymwth, bu farw REES RICHARDS, Llanfair Hill, Gorsgoch, neu fel y'i hadwaenid gynt, 'Rhys Bwlchgwyn.' Amaethwr ydoedd yn trin ei dyddyn ac yn trin ei fywyd yr un ffordd. Cofiaf amdano yn yr ysgol 'slawer dydd, ac ni chollais olwg arno ar hyd y daith. O byddai rhywbeth yn ei flino galwai arnaf, ond wele'r galw olaf wedi dod. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ â'r Capel gan Parchn. S. E. Bowen ac Islan Jones, M.A. ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd ddwy ferch a nifer o berthynasau eraill i alaru o'i golli.

DYDD Iau, yr 8fed o Dachwedd, claddwyd gweddillion marwol Mrs. ALICE HUMPHREYS, 70, Heol y Felin, Aberdâr a hithau'n 72 oed. Bu'n glaf ers tro a dim ond ei hysbryd dewr a siriol a'i cadwodd yn fyw. Yr oedd yn wyres i'r enwog William Williams, 'Y Carw Coch' ac yn olaf erbyn hyn o deulu'r Griffisiaid a fu gymaint cefn i'r Hen Dŷ Cwrdd. Ymfalchïai yn ei thras, ac mewn oes llawn o wasanaeth tawel dangosodd awydd i gadw traddodiad y teulu. Yn yr un wythnos yn rhyfedd iawn gwelwyd y 'Stag,' cartref y Carw Coch a'r gwesty a roes iddo ei enw barddonol yn cael ei dynnu i lawr. Yma y bu'r Carw yn cynnal ei Eisteddfodau enwog dros gan mlynedd yn ôl. Ond rhyfeddach fyth efallai oedd y ffaith i'r Eisteddfod Gymraeg gyntaf o gyfres newydd o 'Eisteddfodau'r Carw Coch' gael ei chynnal yn ystod yr un dyddiau. Os yw rhai pethau'n dadfeilio mae'r ysbryd eto'n fyw, a hir y parhaed ysbryd y teulu hwn. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac ar lan y bedd yn y gladdfa gan y Parch. D. Jacob Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Deri Morgan (M) a Glandon Davies (M). Gedy briod a dwy ferch ac amryw berthnasau i alaru ar ei hôl.

Newyddion yr Enwad.

COLEG CAERFYRDDIN.—Wedi gwasanaethu'r Bwrdd Presbyteraidd am rai blynyddoedd fel ysgrifennydd, ac yn uchel ei barch ymhlith y myfyrwyr, yr athrawon, awdurdodau'r Brifysgol, a ffrindiau'r Coleg o bob enwad, y mae'r Parchedig G. J. G. Grieve, B.A. wedi ymddeol. Yr oedd ar fwriad cymryd gofal y First Presbyterian Church, Belfast, un o gynulleidfaoedd cryfaf yr enwad, ond gorfu arno oherwydd afiechyd newid ei gynlluniau. Dymunir iddo wellhad buan. Dilynir ef yn y swydd gan y Parchedig Roger Thomas, M.A., Llyfrgellydd ac Ysgrifennydd y Dr. Williams' Trust. Gwelir felly fod Mr. Thomas yn gwasanaethu dau fwrdd o ymddiriedolwyr sydd wedi gwneud gwaith rhagorol iawn yng Nghymru yn ystod dau cant a hanner o flynyddoedd. Penododd y Bwrdd Presbyteraidd yn ddiweddar gadeirydd iddo'i hun, a llawen gennym mai i Gymro trylwyr, Dr. R. O. Jones, un o fechgyn talentog Prifysgol Cymru, y disgynnodd yr anrhydedd hwn.

CWRDD GWAITH CYRDDAU'R HYDREF.—Yr oedd nifer anarferol o fawr yn bresennol yn y cwrdd yma, a daeth Mr. D. T. Williams bob cam o Aberdâr i lywyddu. Darllenwyd y cofnodion a 'fel arfer' ys dywedodd rhywun, cododd mater Penrhiw. Darllenwyd llythyr y Dr. Dillwyn John, pennaeth yr Amgueddfa yn datgan diolch y Cyngor i'r enwad am iddynt gyflwyno'r hen gapel i'w gofal. Penderfynwyd fod yr allwedd i'w chyflwyno i'r Dr. Iorwerth Peate (ar ei gais ef). Awgrymodd Mr. Hewett o Drebanos y dylid cadw 'Cwrdd Ffarwel' ym Mhenrhiw cyn iddo ymadael am Sain Ffagan. (Go dda, meddaf i !) Apeliodd y Golygydd am gefnogaeth yr eglwysi i'r YMOFYNNYDD a phenderfynwyd peidio ag ymyrryd â'i faint am flwyddyn. Deallwyd bod lle i amau a oedd gweithredoedd sefydlu ymddiriedolwyr newydd Cwmwrdu (1926) wedi eu cyflawni. Penodwyd Pwyllgor i wneud ymchwil bellach ac fe enwyd y Parch. T. O. Williams, J. Marles Thomas, Mr. Gruffydd Morgan a'r Ysgrifennydd a'r Cadeirydd. I ddilyn, bu cryn drafod ar sefyllfa Panteg ac fe benderfynwyd fod y Parch. Marles Thomas i fod yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaethau yno o hyn allan. Addawodd yr Ysgrifennydd archwilio cyflwr yr adeilad a threfnu apêl leol tuag at ei atgyweirio. Clywyd gyda phryder fod Mr. David Jones, Llanbedr yn benderfynol i ymddiswyddo fel trysorydd, ond codwyd ein gobaith wedi clywed y byddys yn gofyn i Mr. D. G. Davies, M.R.C.V.S., Faerdre gymryd ei le.

CYRDDAU'R HYDREF.—Cynhaliwyd yr uchod yng Nghapel Ciliau Aeron, Hydref 30 a 31. Yn yr hwyr yr oedd yr oedfa gyntaf. Cyflawnwyd y rhan arweiniol gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a phregethwyd gan y Parchn. Islwyn Pritchard, B.A., Trebanos a J. Marles Thomas, M.A., Llandysul. Prynhawn Mercher cyflawnwyd y rhan gyntaf o'r gwasanaeth gan Miss Williams, Trebanos, a phregethwyd gan y Parchn. D. Jacob Davies, B.A., Aberdâr a T. O. Williams, Llanbedr. Yn yr hwyr dechreuwyd y gwasanaeth gan Miss Williams, Trebanos eto a phregethwyd gan y Parchn. Noel James

B.A., sydd yn bresennol yn gofalu am eglwysi Capelygroes a Chribin, a'r Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D., Caerfyrddin. Cafwyd cynulliadau anarferol o luosog nos Fawrth a dydd Mercher. Daeth nifer fawr o bobl o Aberdâr a Threbanos. Gellir dweud fod y genadwri draddodwyd gan y gweinidogion yn rymus ac yn effeithiol iawn, ac iddynt lwyddo i greu naws defosiynol yn y gwasanaethau, yr hyn sydd yn bwysicach na dim arall. Gwasanaethwyd yn fedrus wrth yr organ gan Miss Hilary Jonathan, Hampton House a Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch. Credir i'r cyfarfodydd fod yn rhai bendithiol.

GRAIG A GELLIONNEN.—Dydd Sul a Nos Lun, Hydref 21ain a'r 22ain cynhaliwyd ein Cyfarfodydd Pregethu Blynyddol. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parch. Noel James, B.A. Cafwyd oedfaon boddhaol. Yr oedd ei neges yn rymus a'i chanolbwynt, a'i ergyd ar y dyn mewnol bob tro. Yr oedd y canu'n hwylus a'r cyfaill I. E. Hopkins, B.Sc. yn cyfeilio wrth yr organ. Llwyddiant ymhob cyfeiriad.—Bore Sul, Hydref 28 cafwyd y fraint o wrando ar fywyd y Gymdeithas Gyffredinol, y Parch. Randall Jones yn traethu ei neges yn yr hen Gapel ar y Mynydd (ar ei gais arbennig ef). Cafwyd bore teg ond gwaethygodd y dydd wrth fynd ymlaen, er hynny credwn i ni fedru estyn iddo groeso gwir Gymreig.—Sul, Tachwedd 4edd cynhaliwyd y Gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf yng Ngellionnen y bore, a'r Graig yn yr hwyr, a'r Gweinidog yn gwasanaethu. Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch i'r Plant y prynhawn. Yr Unawdwyr oedd Lawrence Bowen a Madam Bowen James.—Llun, Tachwedd 5ed, dydd Priodas Euraidd Mr. a Mrs. David Evans, Graig-Glyn-Meirch. I'w dathlu, rhoddodd y teulu swper fawr i aelodau'r Urdd a chyfeillion eraill yn neuadd y Graig. Dywedir i bedwar ugain eistedd wrth y byrddau. Llongyfarchwyd hwy yn gynnes iawn gan amryw o siaradwyr a phawb yn dymuno iddynt bopeth o'r gorau.

CAPEL-Y-BRYN.—Ar Sul, Hydref 7ed etholwyd a ganlyn yn ddiaconiaid i'r gynulleidfa : David Evans, Ralltgoch ; Enoch Evans, Fronddu ; Evan Jones, Cluncoch a William Jones, Crosshands. Cynorthwywyd gyda'r gwaith gan David Davies, Blaenhirbant-uchaf, Trysorydd Capel-y-Cwm ; E. Charles Evans, Arwerthwr, Llanybydder, Ysgrifennydd Alltyplaca a Rees Davies, y Felin, Ysgrifennydd Capel-y-Bryn. Bu tadau tri o'r diaconiaid newydd yn yr un swydd am flynyddoedd, a Evan Jones yw Trysorydd Capel-y-Bryn.

"LLYWELYN O ABERDÂR".—Y mae Mr. David Llewelyn, A.S., Caerdydd, y gŵr a apwyntiwyd gan y Llywodraeth i ofalu am faterion Cymru, yn hannu o un o hen deuluoedd yr Hen Dŷ Cwrdd. Gobeithiwn nad yw wedi anghofio yr hen gyff y naddwyd ef ohono ac y bydd ei wasanaeth yn nhraddodiad yr Hen Dŷ Cwrdd.

CRIBYN.—Cynhaliwyd Cwrdd Diolch am y Cynhaeaf yng Nghapel Cribin, nos Wener, Hydref 26ain, y Parch. J. Marles Thomas yn gwasanaethu a Miss Eirwen Davies wrth yr organ. Cafwyd cynulliad da a chwrdd hwylus.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Yn y Cyfarfodydd Diolchgarwch a gynhaliwyd yn yr eglwysi yma pregethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Llandysul. Cafwyd cynulliadau a gwasanaethau da.

CODWR CANU AM HANNER CAN MLYNEDD.—Trwy amryfusedd gadawyd enw Mrs. J. R. James allan o restr y siaradwyr, ac fe enwyd Mrs. Edgar Williams fel Mrs. Idris Williams.

GRAIG, LLANDYSUL.—*Diolchgarwch.* Cynhaliwyd y Cyfarfodydd ar Nos Lun, Hydref y 15ed, a'r gweinidog yn gwasanaethu. Dyma un o'r gwasanaethau lluosocaf a welwyd yma ers tro, ac fe gafwyd blas ar y diolch a'r moliant.—*Croeso.* Croeso mawr yn ôl i Miss Dilys Davies, 1, Wind Street a hithau bellach wedi bod yn y Brifddinas am rai blynyddoedd. Yr oedd yn dra ffyddlon gyda'r achos Cymraeg yno a phleser yw ei chael yn ôl yn awr i Landysul ac i'r Graig. Llongyfarchwn hi ar ei swydd newydd.—*Cyfarchion* i Eira Davies, Olwen Thomas a Deric Davies. Edrychwn ymlaen am eu gweld y Nadolig.

PANTYDEFAID.—Nos Sul, Hydref 28ain cynhaliwyd Cyngerdd Cysegredig dan nawdd yr achos yn Neuadd y Capel. Dyma un o'r cyngherddau gorau a gafwyd ers blynyddoedd—y Neuadd yn orlawn, a phawb mewn hwyl dda. Cadeiriwyd mewn modd hapus iawn gan un o ffyddloniaid yr achos—Mr. James Evans Rhydymaengwyn—gynt o Gyfeile gerllaw—yr hwn a gydnabyddodd yr anrhydedd drwy roddi siec o £10 at yr achos. Llywyddwyd gan y Gweinidog newydd—y Parch. J. Marles Thomas, a chyfeiliwyd gan Miss Nancy Jones, Tregroes ; Mrs. Evans, Cwmsychbant a Miss Evans, Siop Pontsian. Cafwyd Unawdau, Deuawdau ac Adroddiadau gan a ganlyn (a phob un yn rhoddi ei wasanaeth yn rhad)—Mrs. Jennie Hughes-Evans a'i dwy ferch fach—Megan a Dilys ; Mrs. Evans, Cwarre Villa, a Crugwen ; Mrs. Nans Jones, Prengwyn ; Miss Nansi Lewis, Tregroes ; Miss Betty Rees, Henllan ; Meistri D. T. Davies ; Gwilym Lewis, Llandysul ; Joseph Davies, Llandyfriog ; Caradog Evans, Bwlchyfadfa ; Dennis Brown a Dilwyn Thomas. Talwyd y diolchiadau arferol gan Mr. David Davies, M.R.C.V.S., Faerdre. Darparwyd lluniaeth flasus i bawb a gymerodd ran gan aelodau Urdd y Benywod. Dechreuad da i waith y tymor.—*Cyfarfodydd Diolchgarwch.* Cynhaliwyd 'Nawn a Hwyr, Hydref 24 a'r Gweinidog yn gwasanaethu.—Da oedd gweld ar ei gwyliau dro yn ôl, Nurse Cerdina Davies. Y mae hi ers tro wedi bod ar wasanaeth yn Syra, Gwlad Groeg. Hwyl fawr iddi wrth ddychwelyd i fro ei mebyd i wledydd tramor.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.